# CYNGOR CYMUNED LLANWINIO COMMUNITY COUNCIL

Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned Llanwinio ar nos Fercher 20fed o Dachwedd 2019 am 8.00yh yn Neuadd Gymuned Llanwinio.

**PRESENNOL:** Cyng D Lewis, R Gallie, G Evans, P Walton, W Evans and K Bowen (clerc)

**YMDDIHEURIADAU:** Cyng J Phillips, H James and J Lewis (CSC)

**COFNODION:** Darllenwyd cofnodion cyfarfod 17ail o Fedi a derbyniwyd hwy yn gywir.

**DATGANIADAU O DDIDDORDEB**: Dim

**MATERION YN CODI:**

Yn dilyn prynu cae chwarae Blaenwaun penderfynwyd hysbysu hyn ar wefan y cyngor a phapurau lleol. Fe fydd apel am wirfoddolwyr i helpu efo cynnal a chadw'r cae chwarae hefyd yn cael ei gynnwys.

Trafododd y Cyngor sut y gallai gydymffurfio efo'r ddyletswydd i gadw a ehangu'r bioamrywiaeth o fewn ei ardaloedd gwaith cyfredol fel y gofynnir gan Ddeddf Amgylchedd Cymru 2016 Rhan 6. Clerc i roi'r cynllun ar y wefan.

**GWEFAN Y CYNGOR**

Trafododd y Cyngor sut i uwchraddio ei gwefan bresennol i gydymffurfio efo rheolau hygyrchedd newydd sy'n dod i rym yn 2020. Cymeradwywyd derbyn cynnig y cyflenwir presennol.

**KIOSK BLAENWAUN :**

Yn dilyn penderfyniad y Cyngor i beidio gwrthwynebu cymryd y ffon allan o giosk Blaenwaun fe wnaeth y Cyngor gymeradwyo prynu y kiosk oddiwrth BT am £1.00 ac ei ddefnyddio fel lleoliad i ddiffybriliwr.

**GOHEBIAETH:** Dim

**DERBYNIADAU:**

| | |
|---|---|
| Aura Wind – Twrbin gwynt Plasparcau lles cymunedol | £880.94 |
| G.E.& J.A. James – Rhent tir | £608.30 |
| Messrs Robinson – Rhent tir | £219.10 |
| D.H. & J. M. James – Rhent tir | £284.90 |

**BILIAU:**

| | |
|---|---|
| SSE – Trydan Neuadd Llanwinio 24/7 – 24/10/19 | £30.82 |

**ADRODDIAD ARIANNOL:**

Cyfrif Trysorydd £6045.22

Cyfrif Busnes £918.25

**CYNLLUNIO:** Dim

**U.F.A.**

Hysbysodd Cyng. P Walton y Cyngor o fwriad Pwyllgor Adloniant Llanwinio i brynu dau ddifibriliwr i'w rhoddi yn Neuadd Llanwinio a chiosk Blaenwaun.

Hysbysodd Cyng P Walton hefyd ei fod yn y broses o symud o'r ardal ac y fyddai yn sefyll lawr fel cynghorydd maes o law. Diolchodd y Gadair iddo am ei wasanaeth i'r cyngor cymuned dros nifer o flynyddoedd ac hefyd ei waith efo nifer o gymdeithasau eraill o fewn y plwyf.

Gan fod na ddim rhagor o fusnes diolchodd y Gadair i bawb oedd wedi mynychu a datganiodd y cyfarfod ar gau.

**Cynhelir y cyfarfod nesaf ar nos FERCHER 15fed o IONAWR 2020 am 8.00yh yn Neuadd Gymuned Llanwinio.**